**Pwyllgor Addysg A Dysgu Gydol Oes**

# Cyflwyniad Ufi Cymru i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cynulliad Cymru

***Y diweddaraf ar y camau a gymerwyd mewn perthynas â datblygiad* learndirect *yng Nghymru***

Diolch i chi am fy ngwahodd i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ac am roi cyfle arall i mi ddod i Gymru, y chweched tro i mi ymweld â'r wlad mewn deg mis – ac yn sicr nid fy ymweliad olaf … gobeithio. Yn ystod y 10 mis diwethaf cefais gyfle i weld drosof fy hun rywfaint o waith yr wyth ar hugain o bartneriaethau **learndirect** sy'n gweithredu yng Nghymru erbyn hyn, mewn cydweithrediad â'r Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol a chyda phartneriaid eraill, ac mae'r hyn a welais wedi gwneud cryn argraff arnaf.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2001–2002 roedd yna 4,786 o ddysgwyr **learndirect** yng Nghymru; yn defnyddio 8654 o gyrsiau :1,560 yn dilyn cyrsiau sgiliau sylfaenol; 2,016 yn dilyn cyrsiau busnes a rheolaeth a 5,078 yn dilyn cyrsiau TGCh. Dyma gychwyn cadarnhaol, ond cymedrol, rwy'n meddwl. Rwy'n credu y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd. Yn wir, rwy'n disgwyl y gwnawn.

**Ufi Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Ym mis Tachwedd y llynedd yng nghynhadledd Ufi ar y cyd â fforwm cefais gyfle i groesawu cyhoeddiad dogfen oedd yn dangos y ffordd ar gyfer Cymru yn benodol a gweledigaeth y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru i ennill bri drwy'r byd fel 'Gwlad sy'n Dysgu'. Rwy'n rhannu'r weledigaeth honno.

Mae'r blaenoriaethau polisi a amlinellwyd yn Y Wlad sy'n Dysgu yn cydnabod bod gwir angen gwella dysgu ac ennill rhagor o gymwysterau.

Yn ein **Cynllun Strategol 2002-2005 Trawsnewid Dysgu: Newid Bywydau,** mae Ufi hefyd yn cydnabod y bydd Cymru, trwy annog arloesedd, menter ac entrepreneuriaeth, mewn sefyllfa i ddatblygu a meithrin amgylchedd sy'n cefnogi dysgu a fydd yn trawsnewid sylfaen gwybodaeth a sgiliau'r wlad.

Mae Ufi Cymru, trwy ei rwydwaith o bartneriaethau sy'n seiliedig ar Golegau Addysg Bellach Cymru, yn cyfrannu tuag at wireddu gweledigaeth y Cynulliad o 'symbylu ac annog arloesedd a manteisio i'r eithaf ar TGCh yng Nghymru'. Diau fod gwybod fod yr agenda hon a'r ymrwymiad hwn yn cael eu rhannu yn tawelu ein meddyliau ac yn rhoi nerth i bob un ohonom gyflawni nod y gynhadledd fforwm ddiweddar 'Colegau Llwyddiannus: Cymru Lwyddiannus'.

Mae gwaith Ufi Cymru a'r Gr•p Ymgynghorol yn ystyried polisïau a chynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae dogfennau polisi craidd y llywodraeth yn benodol yn sail i'n gwaith.

Mae **Y Wlad sy'n Dysgu** yn canolbwyntio ar greu Cymru gynaladwy a chyfartal. Mae Ufi yn cynorthwyo ac yn mynd i'r afael â rhai o egwyddorion allweddol y ddogfen hon trwy:

- ddileu rhai o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag dysgu. Mae Ufi yn dod â'r profiad dysgu i'r dysgwr;
- sicrhau bod partneriaid allweddol yng Nghymru yn gwbl ymwybodol o botensial **learndirect** i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr amharod;
- trwy waith marchnata a hyrwyddo helaeth a thwf y rhwydwaith **learndirect** yng Nghymru, mae Ufi yn darparu mynediad i ddysgu ar-lein i bawb yn ddiwahân, ac yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd trwy ddysgu ar-lein.

Mae **Cymru Ar Lein** yn hyrwyddo manteision TGCh a'r angen i ddatblygu a chadw sgiliau ac arbenigedd. Trwy weithio gyda'r Coleg Digidol, sectorau, darparwyr preifat, sefydliadau Addysg Bellach ac awdurdodau lleol mae Ufi yn codi ymwybyddiaeth ac yn gwella dealltwriaeth o TGCh ymhlith unigolion ac yn helpu i ddileu rhwystrau daearyddol, lleihau eithrio cymdeithasol a dod â'r cyfle i fanteisio ar ddysgu yn nes atynt.

Mae **Cymru sy'n Ennill** yn sylweddoli bod angen busnesau cystadleuol gyda'r gorau yn y byd sy'n cynnwys pobl fedrus, llawn symbyliad. Trwy gyfryngwyr a phartneriaid ledled Cymru mae Ufi yn helpu busnesau i ddeall eu hanghenion a sut i ddefnyddio e-fusnes i ddatrys eu problemau.

Mae'r **Cynllun ar gyfer Cymru** yn nodi strategaeth a gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer cyflawni economi modern. Mae Ufi mewn sefyllfa allweddol i gefnogi egwyddorion y Cynllun a helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng dysgu a busnes trwy ein hagenda sy'n canolbwyntio ar fusnes gyda darparwyr **learndirect** mewn Addysg Bellach ac yn y sector preifat yng Nghymru.

Mae'r **Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Genedlaethol** yn cydnabod bod angen i Gymru sicrhau bod gan unigolion y sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar ddiwydiant, er mwyn creu economi sy'n ffynnu. Trwy ein partneriaethau, mae Ufi Cymru eisoes yn bwrw ymlaen â'r agenda sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd sy'n cefnogi egwyddorion y strategaeth genedlaethol. Rydym wedi creu portffolio amlgyfrwng unigryw ac arloesol o ddeunyddiau dysgu er mwyn delio ag anghenion dysgwyr.

Mae natur ddadadeiledig dull **learndirect** o ddysgu yn golygu y gellir profi amrywiaeth eang o ddulliau gweithredu a'u teilwra yng ngoleuni amgylchiadau a grwpiau targed. Mae hefyd yn ein galluogi i sefydlu 'cynlluniau peilot' yn gyflym, megis y prosiect yr ydym yn ei ddatblygu gyda'r Coleg Digidol yn Nyffryn Ogwen. Mae'n rhwydwaith mewnol TGCh yn rhoi cyfle i bobl fanteisio ar y gwasanaeth unrhyw adeg ac yn unrhyw le, gan hwyluso'r cyfle i gael amrywiaeth o sefyllfaoedd dysgu.

Mae gwaith Ufi Cymru hefyd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r canlynol:

- Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth
- Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth
- Cymunedau'n Gyntaf
- gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg

**Ufi Cymru ac ELWa**

Mae ELWa, y Cyngor Cenedlaethol, ar hyn o bryd yn nodi ffyrdd o ddatblygu addysg oedolion ac addysg barhaus, gan roi sylw arbennig i ddysgu allymestyn ac anffurfiol yn ogystal â dysgu dwyieithog.

Roedd Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Ufi Cymru ac ELWa a lofnodwyd ym mis Tachwedd 2001 yn nodi, mewn termau eang, y nodau a'r amcanion y mae'r ddau sefydliad yn eu rhannu, ac yn rhoi manylion meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae Ufi Cymru ac ELWa ill dau wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i sicrhau gwelliannau y gellir eu mesur mewn cyfleoedd a chyraeddiadau dysgu, sy'n galluogi unigolion, busnesau a chymunedau i wireddu eu potensial a chyfrannu at economi llwyddiannus sy'n seiliedig ar wybodaeth, cyfoeth diwylliannol a chymdeithas sy'n cynnwys pawb. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cynigion ar gyfer cydweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion cyffredin hyn:

- cynyddu'r galw am ddysgu a hyfforddi
- gwella sgiliau
- gwneud unigolion yn haws i'w cyflogi
- datblygu ffrwd barhaus o gyfleoedd dysgu
- cefnogi sgiliau a rhwydwaith mewnol TGCh
- cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn dysgu trwy wella dewis a mynediad
- datblygu cyfleoedd i ddysgu'n ddwyieithog

**Gweithio gydag ELWa**

***Strategaeth e-ddysgu gynhwysol sy'n cydnabod swyddogaeth* learndirect *yng Nghymru ac yn hyrwyddo'r gwaith ar y cyd rhwng* learndirect *a'r Coleg Digidol, E-Coleg Cymru a chyflenwyr eraill dysgu ar lein.***

Mae'r Cyngor Cenedlaethol wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth e-ddysgu ar gyfer holl addysg a hyfforddiant ôl-16, sy'n cyd-gysylltu cyfleoedd e-ddysgu'r presennol a'r dyfodol ac yn rhoi cyfeiriad strategol iddynt. Mae Ufi Cymru yn cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth e-ddysgu hon mewn nifer o ffyrdd. Mae Huw Evans, Pennaeth Coleg Llandrillo ac aelod o Fwrdd Ufi, sy'n aelod o gr•p arbenigwyr y Cyngor Cenedlaethol ar e-ddysgu a sgiliau TGCh, yn gweithio'n agos gyda Jeff Greenidge a Sian Morgan i sicrhau bod **learndirect** yng Nghymru yn cael ei integreiddio gyda strategaeth e-ddysgu ELWa mewn modd priodol.

Mae Ufi Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Digidol i sicrhau bod ein cynigion e-ddysgu rhad

ac am ddim yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

***Methodoleg ariannu gynaladwy sy'n cefnogi e-ddysgu dwyieithog ar gyfer dysgwyr unigol, busnesau a sectorau***

Fel y gwyddoch, mae'r Cyngor Cenedlaethol ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o drefniadau ariannu er mwyn datblygu system ariannu genedlaethol ar gyfer pob dysgu ôl-16 (ac eithrio Addysg Uwch). Fel rhan o'r broses hon, sefydlwyd Gr•p Cyfeirio Budd-ddeiliaid Allanol i ddarparu fforwm ar gyfer trafod, myfyrio a phrofi syniadau a chynigion yn ymwneud â dulliau newydd o ariannu. Mae Sian Morgan, Rheolwr Polisi Ufi Cymru, yn aelod o'r gr•p ffurfiol hwn ac mae hefyd yn cyfrannu yn anffurfiol at y broses adolygu trwy drafodaethau parhaus gyda swyddogion y Cyngor. Bydd y Cyngor Cenedlaethol ac Ufi Cymru yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu system ariannu genedlaethol, sy'n cefnogi datblygiad **learndirect** yng Nghymru – mae llawer i'w wneud; mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i atebion.

***Agwedd sy'n ychwanegu gwerth at farchnata ar y cyd yng Nghymru***

Ym maes marchnata a chyfathrebu, mae'r Cyngor Cenedlaethol ac Ufi Cymru yn rhannu gwybodaeth ymchwil cwsmeriaid fel y gall y ddau sefydliad gyflawni eu strategaethau marchnata. Mae Phil Wade, Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu Ufi, a George McKechnie, Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu ELWa, wedi sefydlu trefniadau gweithio ar y cyd. Hyd yn hyn rydym wedi rhannu gwybodaeth ar segmentiad dysgwyr yng Nghymru ac wedi trafod y defnydd o logo ELWa ar ddeunyddiau penodol, yn arbennig ar ddeunydd yn yr iaith Gymraeg. Mae Jeff Greenidge, Pennaeth Ufi Cymru, eisoes wedi cynnal trafodaethau gydag Uned Bolisi Iaith ELWa yngl•n â'r posibilrwydd o ailddatblygu deunyddiau yn yr iaith Gymraeg.

Mae'r ddau sefydliad wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i wneud **learndirect** yng Nghymru yn fwy ymatebol. Trwy waith marchnata a hyrwyddo sylweddol a thwf y rhwydwaith **learndirect** yng Nghymru, mae Ufi yn cynnig mynediad i ddysgu ac yn cefnogi dysgwyr ar-lein gan lwyddo i ddenu dysgwyr na fyddent fel arall yn cymryd rhan mewn dysgu.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau rhwng yr Ufi a'r LSC yn Lloegr, mae ELWa ac Ufi yn awr wedi cytuno i ffurfioli cam nesaf ein gwaith gyda'n gilydd erbyn diwedd Mehefin. Bu Gr_p Ymgynghorol Cymru yn ystyried Cynllun Gweithredu ELWa/Ufi Cymru ar gyfer 2002-2003 ar 6 Mehefin. Bydd y gweithredu'n canolbwytnio i ddechrau ar ddatblygiad

- deunyddiau dwyieithog a chynhaliaeth
- cynhyrchion wedi'u canolbwyntio ar ddysgu yn y gweithle yn sectorau twristiaeth a diwidiannau a sylfeinir ar y tir.
- rhaglen farchnata ar y cyd
- gweithgareddau i rhannu ymchwil ar ddysgu ac i ddatblygu cynhwysedd yng Nghymru

Trwy John Graystone, sy'n aelod o Gr•p Ymgynghorol Cymru, mae gan fforwm swyddogaeth hanfodol yn y gwaith o wireddu'r cynllun gweithredu, ynghyd ag Elen Rhys o'r Coleg Digidol sydd hefyd yn aelod o Gr•p Ymgynghorol Cymru.

**Ufi Cymru llwyddiannus: fforwm llwyddiannus**

Mae'r berthynas waith glos yn genedlaethol ac yn lleol rhwng addysg bellach, ELWa ac Ufi yn hanfodol er mwyn creu sylfaen sgiliau economi sy'n seiliedig ar wybodaeth. Gyda'n gilydd gallwn symbylu unigolion a sefydliadau i fuddsoddi mewn dysgu a darparu cyfleoedd cyffrous a hwylus i bobl ddysgu ar adeg, mewn lle ac ar gyflymder sy'n addas i'w hanghenion.

Gall ein partneriaeth sicrhau cyfle cyfartal wrth fanteisio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel, heb ystyried cefndir unigol na lleoliad. Wrth fynd ar drywydd y nodau hyn, rydym hefyd yn parhau i atgyfnerthu cyfraniad dysgu tuag at ddinasyddiaeth weithredol a chreu cymunedau cryfach. Mae colegau yn brif ddarparwyr yn y gwaith hwn. Gadewch i mi roi enghraifft i chi o lwyddiant sydd eisoes ar waith.

Mae'r bartneriaeth yng Nghaerdydd, dan arweiniad **Coleg Glan Hafren**, Caerdydd, De Ddwyrain Cymru, mewn trafodaeth gyda Phriffordd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu De Cymru (SWITCH), prosiect dysgu gydol oes yn Ne Caerdydd, yn cydweithio ar brosiect yn y gymuned. Nod y prosiect yw helpu unigolion o gymunedau sydd wedi eu heithrio i fynd yn ôl i ddysgu a hyfforddi. O fis Mehefin 2002 bydd y prosiect yn cynnig gwasanaeth **learndirect** o 15 pwynt mynediad yn y gymuned, gan dargedu'r digartref, crwydriaid a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig – mae cynlluniau i gynnwys llyfrgelloedd hefyd.

Gan adeiladu ar hyn, mae Jeff Greenidge, Pennaeth Ufi Cymru, hefyd wedi bod yn trafod potensial **learndirect** i gefnogi'r gwaith o adeiladu ar allu cymunedau yng Nghwm Cynon, yn arbennig ym Mhen y Graig, Abercwmboi a Phen y Waun, gyda Christine Chapman AC. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn y lle cyntaf gydag Awdurdod Addysg Lleol Rhondda Cynon Taf yngl•n â sut y gallwn ddatblygu'r dull gweithredu hwn yn yr ardal. Mae colegau yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru wedi manteisio ar y cyfleoedd sy'n dod yn sgîl **learndirect** i ymestyn eu cynnig i ddysgwyr a chreu mwy o gyfleoedd i fusnesau – a gweithio mewn partneriaeth yw'r allwedd i lwyddiant.

Mae ELWa yn awyddus i weithio gyda phartneriaid sy'n gweithio gyda phartneriaid – i ddatblygu mentrau sy'n amlwg yn ymestyn ac yn ehangu e-ddysgu i bob cwr o Gymru. Gyda'n partneriaid yng Nghymru, rydym wedi creu rhwydwaith e-ddysgu genedlaethol newydd - **learndirect** yng Nghymru. Dim ond gyda'n partneriaid a thrwy ein partneriaid y gallwn wneud i'r rhwydwaith hwn weithio – i'r dysgwyr.

Mae **learndirect** yn cynnig system gymorth integredig sydd ar gael i bob dysgwr, sy'n cael ei ddarparu gan staff canolfan **learndirect** a thrwy linellau cymorth ffôn, a chefnogaeth tiwtor ar-lein – hyfforddwyd 63 o diwtoriaid ar gyfer Cymru – a sefydlwyd grwpiau trafod ar-lein penodol ar gyfer Cymru. Cofnod dysgu personol ar-lein, sy'n diweddaru cofnodion dysgu'r dysgwr ac yn monitro ei gynnydd a'i gyraeddiadau.

**Ansawdd**

Yn naturiol bydd ELWa yn ystyried tystiolaeth o adroddiadau arolygu ESTYN wrth adolygu ei flaenoriaethau gweithredol ac wrth hyrwyddo ei syniadau radical i gefnogi'r ymgyrch i sicrhau rhagoriaeth yng Nghymru. Mae Ufi yn gweithio'n agos gydag ESTYN ac ELWa i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu ar-lein o ansawdd uchel. Mae Canllawiau a Safonau Ansawdd ar gyfer cyflwyno a chefnogi e-ddysgu yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r rhwydwaith **learndirect** yng Nghymru.

Tony Maddocks o Goleg Castell-nedd Port Talbot sy'n arwain y gwaith hwn, gan weithio'n agos gyda Choleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Glan Hafren, Sian Morgan ac ESTYN. Mae'r gwaith o ymgynghori yngl•n â'r safonau drafft ar gyfer Cymru wedi dechrau a chaiff ei ddosbarthu yn seminar rhwydwaith **learndirect** ar y 4ydd o Orffennaf.

**Cymwysterau**

Mae gweledigaeth ELWa, yn gwbl briodol, yn uchelgeisiol o ran trawsnewid yr agwedd tuag at ddysgu ffurfiol, dysgu heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol yn gysylltiedig â'r fframwaith credydau. Mae Sonia Reynolds, cyn aelod o Fwrdd Ufi sydd bellach yn Gyfarwyddwr Dysg, wedi chwarae rhan allweddol yn y datblygiadau hyn. Trwy weithio gyda phartneriaid addysg ledled Cymru ac ACCAC mae'r Ufi wedi gwneud lle i **learndirect** ar fap y fframwaith cenedlaethol ac mae'n hyrwyddo'r defnydd o gredydau wrth ddysgu ac asesu.

Mae Ufi Cyf yn disgwyl i Ufi Cymru arwain y ffordd yn y maes hwn gan ei bod yn amlwg fod Cymru ar flaen y gad o ran defnyddio credydau i ennill cymwysterau – datblygiad sy'n gwbl hanfodol i lwyddiant dull **learndirect** o ddysgu.

**Gwneud e-ddysgu yn rhan ganolog o gwricwlwm colegau**

Yn ddiweddar trefnodd **Coleg Castell-nedd Port Talbot** ynghyd â **Choleg Powys** a darparwr preifat, Acom Cyf, gyfres o gyflwyniadau mewn 12 coleg ac i 26 uwch reolwr ac aelodau rhai Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol - CCETs (dros 200 o gysylltiadau allweddol yn gyfangwbl) ledled Cymru yngl•n â'r ffordd y gellir gwneud **learndirect** yn rhan ganolog o gwricwlwm colegau. O ganlyniad i hyn, mae nifer o golegau bellach yn defnyddio **learndirect** yn effeithiol fel rhan ganolog o'u rhaglenni, i ychwanegu gwerth at brofiad y dysgwr.

**learndirect yng Nghymru a datblygu'r gweithlu**

Fel gyda'r LSC yn Lloegr, mae Ufi yn sylweddoli bod ELWa ar hyn o bryd yn nodi ffyrdd o barhau i ddatblygu'r gweithlu. Mae strategaeth ddatblygu'r gweithlu Ufi Cymru eisoes yn cael ei gweithredu'n llawn a chredwn ei bod yn ategu ac yn atgyfnerthu rhaglen ELWa yn ogystal â chyflawni agenda economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ein strategaeth weithredu yn cynnwys tair elfen sy'n seiliedig ar segmentiad y farchnad a theilwra cynnyrch penodol – neu amrywiaeth o gynhyrchion – i bob marchnad unigol. Gadewch i mi roi ychydig o enghreifftiau i chi o'r strategaeth ddatblygu'r gweithlu ar waith yng Nghymru.

**Strategaeth Busnesau Bach a Chanolig**

Bu Phillip Lloyd, rheolwr gwerthiant Busnesau Bach a Chanolig, yn gweithio gyda cholegau i ddatblygu strategaeth ddatblygu'r gweithlu **learndirect** yng Nghymru; gan ganolbwyntio ar sefydlu agenda benodol ar gyfer busnes gyda darparwyr **learndirect** yn y sector Addysg Bellach.

Yn 2001 trefnodd Ufi Cymru gontract gyda darparwr hyfforddiant preifat, Acom Cyf, i gynyddu'r ymwybyddiaeth o **learndirect** ymhlith busnesau. Hyd yn hyn mae'r cwmni wedi cofrestru 505 o fusnesau bach a chanolig ar gyrsiau **learndirect**. Mae canlyniadau dull gweithredu'r darparwr hyfforddiant preifat yn cael eu rhannu trwy'r rhwydwaith **learndirect** yng Nghymru. Dengys y

canlyniadau hyn mai ffordd effeithio o fwrw ymlaen â’r gwaith yng Nghymru yw sicrhau bod mwy o aelodau’r sector preifat a’r sector gwirfoddol yn ymwneud â’r rhwydwaith er mwyn hyrwyddo **learndirect**.

Prif bwyntiau’r strategaeth yw integreiddio cyrsiau **learndirect** i’r portffolio presennol o gyrsiau nad ydynt yn rhan o **learndirect** sy’n cael eu cynnig trwy fod yn hyblyg a chynnig cyfuniadau o ddulliau dysgu i fusnesau bach a chanolig.

Ar hyn o bryd mae cyfres o gyflwyniadau a chyfarfodydd gyda thimau datblygu busnes o fewn Colegau Addysg Bellach yn cael eu cynnal. Hyd yn hyn cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i’r sesiynau gweithdy. Mae’r timau datblygu busnes yn awyddus iawn i wneud eu marc ac yn frwd dros arbrofi a rhoi cynnig ar syniadau newydd. Rhaid i’r dull gweithredu arloesol hwn ddod yn ‘normal’ ymhlith y rhwydwaith darparwyr os ydym i lwyddo i ddenu busnesau bach a chanolig a helpu i ddatblygu’r gweithlu yng Nghymru.

Mewn dogfen a luniwyd gan Gymdeithas y Colegau ac Ufi y llynedd tynnwyd sylw at waith **Coleg Powys** sy’n defnyddio **learndirect** i gynnig pecyn ‘pwrpasol’ deniadol i fusnesau sy’n cyd-fynd ag anghenion busnes. Mae Ufi Cymru yn targedu sefydliadau ‘ambarél’ sy’n dylanwadu ar nifer sylweddol o fusnesau bach a chanolig. Mae gan fusnesau fel cyfrifwyr gannoedd o fusnesau bach a chanolig yn gleientiaid iddynt ac mae llawer ohonynt yn croesawu cyfleoedd i ychwanegu gwerth i’w cleientiaid. Mantais gweithio trwy sefydliadau y mae’r cleientiaid eisoes yn ‘ymddiried’ ynddynt yw ei fod yn rhoi hygrededd i’r cynnig, gyda’r bonws fod angen llai o ymdrech i gyrraedd nifer fawr o fusnesau bach a chanolig.

Mae **Coleg Glannau Dyfrdwy** wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar fusnesau. Un fenter fu datblygu Caffi Rhyngrwyd ar y Stryd Fawr yn Shotton. Mae’r Caffi yn fodern, yn groesawgar ac yn cynnwys y dechnoleg TGCh ddiweddaraf. Mae’n hyrwyddo e-ddysgu a **learndirect** ac mae ei bresenoldeb ar y Stryd Fawr yn amlwg a deniadol i fusnesau’r cylch, yn ogystal â denu dysgwyr unigol. Mae **Coleg Glannau Dyfrdwy** yn bwriadu cynnig portffolio penodol o gyrsiau ‘manwerthu’ i berchnogion siopau’r Stryd Fawr. Trwy ddewis y math mwyaf addas o gyrsiau ‘manwerthu’ yn ofalus gobeithia’r coleg ddenu busnesau lleol eraill.

Mae **Coleg Glannau Dyfrdwy** hefyd wedi datblygu ystafell TGCh yng Nghanolfan Corus. Trwy gydweithio’n agos gyda Corus, mae canolfan TGCh fodern sy’n cynnwys yr holl offer diweddaraf yn rhoi cyfle i weithlu Corus fanteisio ar hyfforddiant ac e-ddysgu, ac mae **learndirect** yn elfen bwysig o’r hyn sy’n cael ei gynnig i’r gweithwyr. Mae’r ganolfan hefyd ar agor i bobl nad ydynt yn gweithio i Corus ac yn gwasanaethu’r gymuned fusnes ehangach.

Mae **Coleg Gwent** a **Choleg Sir Benfro** yng enghreifftiau pellach o’r ffordd y gall gwaith caled a menter greu cyfleoedd yn y gymuned fusnes. Mae gan y ddau goleg dimau datblygu busnes gweithgar sydd wedi cael cryn lwyddiant wrth sefydlu rhaglen o ‘ddigwyddiadau’ sy’n estyn llaw i fusnesau bach a chanolig.

**Strategaeth gorfforaethol**

Mae nifer o ffactorau yn cryfhau safle Ufi yn y farchnad gorfforaethol a chyflogwyr mawr, gan gynnwys brand cryf a hawdd ei adnabod yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy’n cael ei ategu gan rwydwaith nerthol a chefnogaeth i ddysgwyr – nodweddion sy’n benodol i’r hyn y mae e-ddysgu **learndirect** yn ei gynnig i gorfforaethau. Trefniadau a drafodwyd yn genedlaethol sy’n ychwanegu gwerth i golegau a darparwyr lleol yw’r allwedd i rannu llwyddiant yn y cyd-destun hwn.

Gellir gweld enghreifftiau o hyn yng **Ngholeg Ceredigion** sy’n gweithio mewn partneriaeth ag Acom Cyf a **Cholegau Llandrillo, Abertawe a Wrecsam,** sydd wedi sefydlu contractau gyda Banc Barclays fel rhan o fenter Prifysgol Barclays. Sefydlwyd Prifysgol Barclays er mwyn chwyldroi’r ffordd y mae’r banc yn cael y cyfleoedd dysgu iawn ar gyfer ei weithwyr a’u teuluoedd. Fel rhan o’r bartneriaeth barhaus rhwng Barclays a **learndirect**, mae Barclays yn newid y ffordd y mae ei staff yn manteisio ar ddysgu, boed ar gyfer eu swydd, eu gyrfa, neu yn unig er mwyn gwella eu bywydau.

**Strategaeth sgiliau’r sector**

Mae creu’r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector a’r Cyngor Sgiliau Sector trwy’r DU yn rhoi cyfle gwych i golegau a **learndirect** ehangu ein gwaith gyda’n gilydd ar ddatblygu sgiliau sector.

Mae Ufi Cymru wrthi’n chwilio am gyfleoedd i sefydlu nifer fawr o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru trwy nifer o fothau sector-benodol gan gynnwys TUC Cymru, EMTA, LANTRA, CITB a Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru. Mae yna botensial ar gyfer gwaith aruthrol yma a gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ELWa yn cefnogi hyn. Yn wir, mae gweithredu a sylfeinir ar sectorau yn agwedd allweddol o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a'r Cynllun Gweithredu gydag ELWa.

**learndirect – yn cyflwyno sgiliau hanfodol bywyd yng Nghymru**

Mae’r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol yn sylweddoli bod angen i Gymru sicrhau bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant, er mwyn creu economi ffyniannus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd yr awenau trwy gyflwyno strategaeth sy’n canolbwyntio ar wella sgiliau hanfodol darllen, ysgrifennu a chymhwyso rhif. Os bydd y strategaeth yn llwyddo, bydd y goblygiadau i economi Cymru yn sylweddol, gan gyfrannu gobeithio at gynyddu lefelau cyffredinol Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yng Nghymru.

Trwy ei bartneriaethau **learndirect** mae Ufi Cymru eisoes yn bwrw ymlaen â’r agenda sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd, sy’n cefnogi’r blaenoriaethau a nodwyd yn Strategaeth Sgiliau Sylfaenol y Cynulliad. Gall Ufi Cymru wneud cyfraniad pellach i Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru, trwy sicrhau bod yr holl gyfranwyr allweddol yn gwbl ymwybodol o botensial **learndirect** i ddelio ag anghenion dysgwyr amharod.

Mae gan oddeutu 780,000 o bobl ifanc ac oedolion yng Nghymru broblemau llythrennedd a rhifedd. Credwn fod **learndirect** yn cynnig portffolio amlgyfrwng o ddeunyddiau dysgu arloesol i ddelio â’u hanghenion. Mae’r rhagdybiaeth addysgol sy’n sail i gynllun y deunyddiau dysgu yn seiliedig ar y syniad o gefnogaeth annibynnol. Mae’r deunyddiau felly yn galluogi’r dysgwr i weithio’n annibynnol ar y cyfrifiadur, ond nid ar ei ben ei hun. Dywed dysgwyr wrthym fod hyn yn gwneud iddynt deimlo bod llai o stigma yn perthyn iddynt ac yn fwy hyderus.

Mae annog a denu dysgwyr amharod yn her eithriadol. Mae gan Ufi Cymru nifer o fentrau a fydd, gobeithio, yn helpu i gynyddu'r galw am sgiliau sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prosiect Allymestyn, lle mae sefydliadau sydd mewn cyswllt â darpar ddysgwyr yn gweithio gyda phartneriaethau Ufi lleol ac yn annog dysgwyr amharod i ailddechrau dysgu. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Asiantaeth Ieuenctid a **Choleg Hafren** trwy eu cyfryngwyr, megis awdurdodau lleol, i gyflwyno ein cyrsiau sgiliau sylfaenol **learndirect**.

- defnyddio arbenigwyr sgiliau sylfaenol o'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i arddangos deunyddiau Sgiliau Bywyd **learndirect** a chynnig cyngor arnynt. Ar hyn o bryd maent yn gweithio gyda cholegau i ddatblygu cynlluniau gweithredu sgiliau sylfaenol sy'n ymgorffori cynhyrchion **learndirect**. Maent hefyd yn arddangos y portffolio Sgiliau Bywyd ac yn gweithio i'w sefydlu yn rhan ganolog o gwricwlwm y colegau.

- gweithio gyda fforwm a Dysg ar y Prosiect Cymorth Cenedlaethol ar gyfer Sgiliau Sylfaenol mewn Addysg Bellach.

**learndirect yng Nghymru**

Trwy ei bartneriaethau, yn enwedig y rheiny gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cyngor Cenedlaethol, fforwm, Gyrfaoedd Cymru a'r Coleg Digidol, mae Ufi Cymru yn adlewyrchu anghenion Cymru trwy **learndirect** trwy:

- gyflwyno dysgu a gwella sgiliau yn lleol trwy gonsortia addysg a hyfforddiant cymunedol
- cyd-drefnu strategaeth ranbarthol gyda haen ranbarthol ELWa
- sicrhau arbedion maint ar lefel genedlaethol

Rwyf am i **learndirect** lwyddo yng Nghymru a llwyddo dros Gymru. Er mwyn gwireddu hyn, mae cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn arbennig y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn hanfodol. Edrychaf ymlaen at drafod gyda chi ffyrdd y gallwn gryfhau ein partneriaeth weithio i greu Cymru sy'n Dysgu a Chymru sy'n Ennill.

**Ann Limb**

**Prif Weithredwr, Ufi Cyf**

**Mehefin 2002**